Cymdeithas Bob Owen

# Y Casglwr

Pob Peth Printiedig

Rhif 64 | Pris i'r aelodau: £7.50 y flwyddyn
Pris i'r cyhoedd: £3.50 y rhifyn | Nadolig 1998

## Enillwyr Raffl Cymdeithas Bob Owen

Mr Tudur Evans, 10 Avenue Road, Stoke-on-Trent ST4 2DT — **Lamp y glöwr.**

Miss Elisabeth Davies, Lleifior, 5 Maes Glasnant, Cwm-ffrwd, Caerfyrddin SA32 3LP — **Lamp fach y glöwr.**

Mrs Eirlys Davies, 5 Tile Lane, Adel, Leeds LS16 8DZ — **Lamp fach y glöwr ar ddarn o bren** *(Rhodd Mr H. T. Jones, Y Bala)*.

Mr Rhodri Williams, 4 The Parade, Eglwys Newydd, Caerdydd CF4 2EE — **Ffon fugail.**

Dr Gareth Evans, Berwyn, 37 Cefn Esgair, Llanbadarn, Aberystwyth — **Pentwr o lyfrau** *(Rhodd y Llyfrgell Genedlaethol)*.

Mrs Beryl Ellis, 1 Old Hall Cottages, Helygain, Treffynnon, Fflint — **Llwy garu.**

*Dymuna'r Gymdeithas ddiolch i'r rhai a fu mor garedig â rhoi'r gwobrau yn rhad ac am ddim.*

# Cymdeithas Bob Owen yn ymweld â'r Brifwyl eto




*Y tu allan i'r uned ddwbwl ar faes y Brifwyl.*

UNWAITH eto, gwelwyd y Gymdeithas ag uned ar faes Eisteddfod Genedlaethol Pen-y-bont ar Ogwr, ar y cyd â Siop yr Hen Bost. Bu'r fenter yn llwyddiant mawr a chafwyd cyfle i gael cwmni sawl cannoedd o aelodau. Mae'n fodd hefyd i'r golygydd gael syniad am ddiddordebau casglu llawer ohonynt, ac addewidion am erthyglau diddorol, fel y gwelir, gobeithio, yn y rhifyn hwn.

Yn anad dim, uchafbwynt yr wythnos yn sicr, oedd darlith Mr Walford Gealy ar Grochenwaith Porslen Nantgarw ac Abertawe. Rhoddodd inni gefndir y crochendy enwog hwn mewn dull diddorol, a chydag enghreifftiau o'r crochenwaith gwerthfawr. Cymharol ddiweddar yw porslen y gorllewin. Cynhyrchwyd porslen Nantgarw ac Abertawe am tua wyth mlynedd yn unig rhwng 1814 a 1821/22(?). Gwerthwyd y cyfan erbyn 1826. Bu datblygiad porslen ynghlwm wrth yfed te yn y gorllewin a gychwynnwyd oddeutu canol yr ail ganrif ar bymtheg. Ond bu'n rhaid aros gan mlynedd yn ddiweddarach am y crochenwaith porslen gan nad oedd y gwneuthurwyr wedi deall ei gyfansoddiad er mwyn ei atgynhyrchu ym Mhrydain. Un a chwaraeodd ran flaenllaw yn hyn oedd Sais o'r enw William Billingsley a anwyd yn Darbi. Arlunydd blodau ydoedd yn ei hanfod a chafodd gyfle i'w paentio ar y porslen a gynhyrchodd yn Nantgarw ac Abertawe. Ceisiodd efelychu'r arbenigwr porslen Severes o Ffrainc, ond roedd gan y Ffrancwr nawdd brenhinol y tu ôl i'w fenter. Dyn tlawd oedd Billingsley ond cafodd yntau gefnogaeth dau Grynwr, sef William Weston Young a Lewis Weston Dillwyn, i'w fenter, dros dro, beth bynnag. Cynhyrchodd Billingsley dri math o borslen — porslen gwydraidd, porslen wy hwyaid, a phorslen Trident. Er mai'r ddau gyntaf oedd y porslen puraf o bell ffordd, y porslen Trident oedd ffefryn y cwsmeriaid. Gan fod colledion mawr — hyd at wyth deg y cant — wrth geisio darganfod fformiwla y porslen gorau — daeth crochenwaith Nantgarw ac Abertawe yn rhy ddrud i'w brynu ac o'r herwydd bu'r gwaith yn fethiant. I'r rhai a fu mor anffodus i golli'r ddarlith, fe welir talfyriad ohoni yn y rhifyn nesaf o'r *Casglwr*.

**AR WERTH**

**Gwahoddir cynigion am Fedal Dathlu Canmlwyddiant yr Ysgol Sul yng Nghymru, 1785-1885**

**Cysyllter â (01970) 623577**